£ ar gyfer Eich Cymuned Chi

Mae Local United wedi ymuno â nifer o gyflenwyr ynni moesegol blaenllaw (Good Energy, Cooperative Energy, Green Energy UK ac Ecotricity) i roi'r cyfle i grwpiau cymunedol elwa'n ariannol pan fydd eu haelodau'n newid i un o'r cyflenwyr hyn. Mae'r cynllun hwn yn caniatáu i bob cymuned elwa oherwydd y cysylltiad â'r cyflenwyr hyn a chynhyrchu rhwng £500 a £2,000 bob blwyddyn ar gyfer eu nodau eu hun heb fod angen i bob cymuned drafod telerau cytundeb unigol. Byddwn yn cydweithio â phob grŵp cymunedol i ddarparu deunydd marchnata a chymorth gweithredol er mwyn eu helpu i recriwtio'u haelodau i'r cynllun.

Gan fod pump o'r "chwech mawr" o blith y cyflenwyr ynni wedi cyhoeddi codiadau yn eu prisiau yn ystod y misoedd diwethaf, dyma'r union bryd i ystyried dewis mwy moesegol. Mae pob cyflenwr yn ein partneriaeth yn ymfalchïo yn y ffaith nad oes ganddynt amrywiaeth ddryslyd o dariffau gyda chynigion tymor byr, ond yn lle hynny maent yn cynnig prisiau i'w cwsmeriaid sy'n gystadleuol yn gyson gyda strwythurau prisio clir.

Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru'ch cymuned, ewch i
http://www.localunited.net/community

Pwy yw Local United?
Sefydlwyd Local United gan grŵp o entrepreneuriaid cymdeithasol, a phob un ohonynt â phrofiad o weithio o fewn grwpiau cymunedol i roi mentrau cymdeithasol newydd ar fynd. Crëwyd Local United gyda'r nod o helpu cymunedau i atgynhyrchu'r llwyddiant hwnnw drwy ddarparu cefnogaeth, mentora a chyngor ymarferol i grwpiau cymunedol sy'n dymuno sefydlu eu mentrau cymdeithasol eu hun er mwyn mynd i'r afael ag olew brig a'r newid yn yr hinsawdd.